Prosiect Cydgasglu Galw'r Sector Cyhoeddus am Fand Eang yng Nghymru

www.psba.org.uk

psba

Gwasanaethau

galluogi cyflenwi gwasanaethau

Mae PSBA yn darparu portffolio o wasanaethau i fodloni ystod eang o anghenion, o grwpiau bach sydd â gofynion cymharol syml, i gymunedau mawr iawn y mae angen gwasanaethau rhwydwaith cymhleth ac amrywiol arnynt.

Mae rhwydwaith PSBA yn llwyfan wybodaeth rithwir, hyblyg a graddedig sy'n helpu'r rheiny yn y sector cyhoeddus i ddarparu'r gwasanaethau gorau am y pris gorau i bobl Cymru.

Gwasanaethau craidd y rhwydwaith

- Lled band o 1Mbps i 1Gbps
- Cyngor technegol a chynllunio cynhwysedd
- Mynediad at y rhyngrwyd
- Gwasanaethau Porth i rwydweithiau trydydd parti
- Gallu amlgast IP
- Gwasanaethau System Enw Parth (DNS) a chofrestru pyrth
- Hidlo cynnwys i fodloni safonau Sefydliad Gwarchod y Rhyngrwyd
- Cysylltiadau diogel ag adnoddau rhanedig ac i alluogi gwasanaethau ar y cyd
- Gwasanaeth cymorth a datrys diffygion

Mae'r holl wasanaethau a ddisgrifir yn destun adroddiad misol manwl sy'n amlinellu perfformiad yn erbyn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gan ddefnyddwyr terfynol y dewis o ofyn am nodweddion ychwanegol am gost gytûn.

Gwasanaethau uwch y rhwydwaith

Yn ogystal â gwasanaethau craidd y rhwydwaith, gall rhwydwaith PSBA ddarparu:

- Gwasanaeth mur gwarchod a reolir
- Gwasanaethau NAT lleol
- Hidlo cynnwys gwell
- Hydwythedd
- Gofynion hydwythedd unigol
- Gwasanaethau terfynu VPN lleol
- Cefnogaeth ar gyfer traffig sydd wedi'i farcio'n amddiffynnol, hyd at lefel IL3 (CYFYNG)

Gwasanaethau proffesiynol

Er mwyn cael y budd gorau o PSBA, mae nifer gynyddol o wasanaethau ychwanegol ar gael:

- Cyngor technegol, gan gynnwys cynllunio cynhwysedd manwl
- Cyngor ar weithredu gwasanaeth Llais dros y Rhyngrwyd (VoIP)
- Gweithredu fideo-gynadledda
- Cyngor ar ddefnyddio a gweithredu system gyfathrebu unedig integredig

Gwasanaethau newydd

Dros amser, bydd ystod y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig trwy bortffolio PSBA yn cynyddu. Bydd hyn yn helpu sefydliadau gyda phrosiectau llais a fideo lleol, gofynion storio a chyfosod data a phrosiectau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith.

50409

LOGICALIS
Cyflenwr y Rhwydwaith PSBA
The PSBA Network Supplier

Gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru
Working in partnership with Welsh Assembly Government